

## **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Deintyddfa Worcester House,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin  
Bevan

Dyddiad arolygu: 15 Hydref 2018

Dyddiad cyhoeddi: 16 Ionawr  
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
Ffacs: 0300 062 8387  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....	24
4.	Beth nesaf?.....	27
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	29
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	30
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	31
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	32

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

## Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa Worcester House yn 11/12 Worcester Street, Brynmawr, NP23 4DA, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 15 Hydref 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod Deintyddfa Worcester House yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'w cleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y cleifion ac roedd polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod yr offer deintyddol yn cael ei gynnal a'i gadw a'i wasanaethu'n rheolaidd.

Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda ac roedd amrywiaeth dda o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi'r practis, y cleifion a'r staff. Fodd bynnag, mae angen i'r practis sicrhau bod yr hylenydd wedi cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl.

Mae angen i'r practis sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cadw yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod o'r farn eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis
- Roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio offer pelydr-x yn ddiogel
- Roedd gan y practis amrywiaeth dda o bolisïau a gweithdrefnau ar waith

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r practis sicrhau bod cyfrifiaduron wedi'u cloi pan fo'r deintyddfeydd a'r ystafell staff yn wag er mwyn sicrhau cyfrinachedd y cleifion.
- Dylid diwygio'r datganiad o ddiben a'r taflenni gwybodaeth i gleifion er mwyn cydymffurfio â rheoliadau cyfredol

- Dylai pob aelod o'r staff ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth o dân a hyfforddiant diogelwch priodol
- Dylid cynnal cofnodion cleifion yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, sef Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a Chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### **Cefndir y gwasanaeth**

Mae Deintyddfa Worcester House yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Brynmawr. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, un hylenydd a thair nyrs ddeintyddol/derbynnydd.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.



## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Nodwyd gennym bod y practis yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Dywedodd pawb a gwblhaodd holiadur fod y gwasanaeth yn ardderchog neu'n dda iawn.

Gwelsom fod y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn hawdd iawn cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt, a dywedodd pob un o'r cleifion wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, cymaint ag yr hoffent, mewn unrhyw benderfyniadau a wneir am eu triniaeth.

Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ddiwygio ei bolisi cwynion er mwyn cynnwys cyfeiriad at AGIC fel ffordd o gwyno.

Yn ystod ein harolygiad, dosbarthwyd holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 9 holiadur wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn gleifion yn y practis ers mwy na dwy flynedd.

Roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan; dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan gleifion ar yr holiaduron mae'r canlynol:

*"Darperir gwasanaeth ardderchog bob amser"*

*"Caiff popeth ei egluro'n glir ac mae pawb sy'n gweithio yn y practis yn neis iawn ac yn barod i helpu"*

*"Mae'r staff yn gyfeillgar ac yn barod i helpu"*

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo; roedd rhai o'r cleifion o'r farn bod angen iddynt gwblhau gormod o ffurflenni fel claf:

*“Llai o ffurflenni i'w llenwi: mae'n teimlo fel bod nôl yn yr ysgol ac nid oes cymaint o ffurflenni i'w llenwi yn y feddygfa o gymharu â'r deintydd”*

*“Gwastraffu amser yn llenwi ffurflenni, e.e. ffurflenni meddygol, holiaduron, ffurflenni melyn”*

## **Cadw'n iach**

### **Hybu, diogelu a gwella iechyd**

Yn yr ardaloedd aros, gwelsom fod detholiad bach o wybodaeth ar gael am iechyd y geg a thriniaethau deintyddol. Roedd hyn yn cynnwys taflen, wedi'i hysgrifennu a'i dylunio gan gyn-ddeintydd yn y practis, a oedd yn ymwneud ag iechyd y geg i blant. Roedd gwybodaeth ychwanegol ar gael ar y sgriniau a oedd hefyd wedi'u lleoli yn y ddwy ardal aros.

Yn ddieithriad, dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

## **Gofal gydag urddas**

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom y staff yn ymddwyn yn gwrtais tuag at y cleifion a oedd yn ffonio'r practis ac a oedd yn dod i'r practis. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn defnyddio'r ystafell staff neu ddeintyddfa wag, pe bai un ar gael, pe byddai angen cynnal sgwrs breifat naill ai'n bersonol neu dros y ffôn. Nodwyd gennym bod gan y practis bolisi cyfrinachedd.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin gydag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis. Dywedodd un claf wrthym:

*“Mae pob un bob amser yn gwrtais ac yn barod i helpu”*

Ar y cyfan, roedd gwybodaeth mewn llawysgrifen a gwybodaeth electronig am gleifion yn cael eu storio'n ddiogel, gan sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif wedi'i diogelu. Gwelsom ar un adeg yn ystod yr arolygiad nad oedd y cyfrifiadur yn yr ystafell staff, nad oedd wedi'i chloi, wedi'i gloi a bod modd gweld gwybodaeth am gleifion. Argymhellwn y dylai pob aelod o'r staff sicrhau y caiff cyfrifiaduron eu cloi pa bryd bynnag y byddant yn gadael ystafell er mwyn sicrhau na ellir gweld gwybodaeth am gleifion. Roedd gan y practis bolisiau rheoli cofnodion a diogelu data priodol.

Roedd gan y practis bolisiâu priodol hefyd i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Nodwyd gennym bod y 9 Egwyddor a nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol<sup>1</sup> wedi'u harddangos yn ardal y dderbynfa ac mai dyma oedd sail polisi sicrhau ansawdd y practis. Mae'r egwyddorion yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cloi'r cyfrifiaduron pryd bynnag y byddant yn gadael ystafell.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth, cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny, gan nodi eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Gwelsom bosteri yn dangos costau triniaeth breifat a chostau triniaethau'r GIG wedi'u harddangos yn ardal y dderbynfa. Pan fo'n briodol, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod bob amser yn cael eu hysbysu'n llawn am gost unrhyw driniaeth cyn iddynt gael y driniaeth.

Gwelsom nifer o bolisiâu perthnasol mewn perthynas â chynllunio triniaethau a chwblhau'r cynlluniau cofnodi triniaethau sy'n rhan o gofnodion meddygol y cleifion. Roedd gan y practis hefyd bolisiâu priodol ar waith, gan gynnwys polisi trin.

Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017, roedd gan y practis Daflen Wybodaeth i Gleifion yn ardal y dderbynfa a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol ac a oedd ar gael ar gais yn y practis. Er mwyn sicrhau bod y daflen yn cydymffurfio'n llawn, argymhellwn y dylid ei diwygio er mwyn

---

<sup>1</sup> <https://standards.gdc-uk.org/>

hysbysu'r cleifion er bod y practis yn hygyrch, na fyddai'r toiled i gleifion yn hygyrch i bobl mewn cadair olwyn.

Gwelsom fod oriau agor y practis a'r rhif ffôn mewn argyfwng wedi'u harddangos y tu allan i'r practis, ynghyd ag enwau a chymwysterau pob un o'r deintyddion.

Nodwyd gennym fod polisïau ar waith yn ymwneud â diogelu data a rheoli cofnodion, gan gynnwys cod ymarfer ar ddiogelu data.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Y practis i sicrhau bod ei Daflen Wybodaeth i Gleifion yn bodloni gofynion Atodlen 2 i Reoliadau Deintyddol Preifat 2017

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod bob amser yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith.

### Gofal amserol

Roedd manylion am sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau wedi'u harddangos ar ddrws ffrynt y practis ac yn cael eu rhoi fel rhan o neges peiriant ateb y practis. Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur ei fod yn "hawdd iawn" cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau y câi'r cleifion eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym, pe byddai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi gwybod i'r claf a oedd yn aros am unrhyw oedi.

### Gofal unigol

#### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Mae'r practis yn rhoi triniaethau fel y nodir yn ei Ddatganiad o Ddiben<sup>2</sup>.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth. Fodd bynnag, dangosodd adolygiad o gofnodion deintyddol y cleifion nad oedd y deintyddion yn cofnodi fel mater o drefn eu bod yn holi'r cleifion am eu hanes meddygol pan fyddant yn ymweld â'r practis. Ceir argymhelliad yn hyn o beth yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

### **Hawliau pobl**

Nid oedd gan y practis faes parcio ond roedd lle i barcio ar y strydoedd gerllaw. Roedd y practis yn hygyrch o'r stryd i ddefnyddwyr cadair olwyn a phobl ag anawsterau symudedd. Roedd derbynfa'r practis, yr ardal aros ac un ddeintyddfa ar y llawr daear, a oedd yn golygu bod yr ardaloedd cleifion yn hygyrch i bawb.

Nid oedd y canllawiau yn nhoiled y cleifion yn addas i ddefnyddiwr cadair olwyn.

Roedd gan y practis bolisiâu priodol ar waith i ddiogelu hawliau pobl, gan gynnwys polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth a pholisi anabledd.

### **Gwrando a dysgu o adborth**

Roedd gan y practis bolisi cwynion ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat. Pan fo'n berthnasol, roedd y polisi'n gyson â phroses gwynion y GIG "Gweithio i Wella"<sup>3</sup>, ac o ran triniaeth ddeintyddol breifat, roedd yn gyson â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017<sup>4</sup>. Argymhellwn y dylid diwygio'r polisi er mwyn cyfeirio at AGIC fel un o'r llwybrau

---

<sup>2</sup> Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw datganiad o ddiben sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

<sup>3</sup> "Gweithio i Wella" yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt. Mae pryderon yn cynnwys materion a nodir o ddiwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, mewn perthynas â chyrrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru

<sup>4</sup> <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/202/made/welsh>

i'r cleifion gyflwyno cwynion. Gwelsom fod taflenni "Gweithio i Wella" ar gael yn ardal y dderbynfa.

Y prif ddeintydd oedd yr arweinydd a enwyd ar gyfer unrhyw gwynion. Roedd y practis yn cadw ffolder ar gyfer ffeilio cwynion, lle y caiff manylion am natur y gŵyn, y camau a gymerwyd a'r canlyniad eu cofnodi.

Gwelsom fod gan y practis lyfr sylwadau a holiadur i gleifion ar ddesg y dderbynfa er mwyn i'r cleifion roi adborth anffurfiol a ffurfiol. Er bod y practis yn adolygu'r holl sylwadau a'r holiaduron, nid yw'n rhoi adborth i'r cleifion a byddem yn cynghori y dylai ystyried defnyddio arddull "dywedoch chi: gwnaethom ni" mewn ymateb i sylwadau ac awgrymiadau'r cleifion.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddiwygio ei bolisi cwynion er mwyn cyfeirio at AGIC fel un o'r llwybrau i'r cleifion gyflwyno cwynion.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Nodwyd gennym fod cyfleusterau clinigol addas ar gael a bod trefniadau ar waith i ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel, a nodwyd dystiolaeth o waith cynnal a chadw parhaus a rheolaidd.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis ac roedd systemau ar waith er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Argymhellwn y dylai'r practis roi clo ar y drws sy'n arwain at yr ystafell staff a'r ystafell radiograffeg er mwyn gwneud yn siŵr na all cleifion gael mynediad at ardaloedd staff yn unig.

Mae angen i'r practis sicrhau y caiff cofnodion meddygol cleifion eu cwblhau yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion yn ystod pob ymweliad.

## Gofal diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef. Nodwyd gennym fod nifer o bolisïau perthnasol ar waith, gan gynnwys polisi iechyd a diogelwch cynhwysfawr. Nid oedd cynllun parhad busnes ar waith ac argymhellwn y dylid rhoi cynllun o'r fath ar waith er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau. Roedd poster iechyd a diogelwch yn yr ystafell ddihalogi.

Roedd polisi diogelwch tân a dywedwyd wrthym fod y staff yn cynnal archwiliadau o'r larymau tân a'r dyfeisiau diffodd tân bob wythnos. Roedd contract cynnal a chadw ar waith hefyd ar gyfer cynnal archwiliadau blynyddol o'r dyfeisiau diffodd tân. Roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal bob 6 mis.

Nodwyd gennym hefyd fod asesiad risg tân wedi'i gynnal yn ddiweddar. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw un o'r staff wedi cael unrhyw hyfforddiant diogelwch tân ac argymhellwn y dylid ymgymryd â hyfforddiant o'r fath.

Roedd yr adeilad yn ymddangos fel pe bai mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan, ac roedd dwy feddygfa wedi cael eu hadnewyddu'n ddiweddar. Gwelsom fod yr holl ardaloedd y gall y cyhoedd gael mynediad iddynt, a oedd unwaith eto wedi'u hadnewyddu'n ddiweddar, yn lân ac yn daclus. Ni leisiwyd unrhyw bryderon mawr gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn "lân iawn".

Nodwyd gennym bod dyfeisiau cludadwy yn cael eu profi'n rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddiogel yn y practis. Gwelsom fod dyfeisiau diffodd tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad a nodwyd gennym eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau bod yr offer yn gweithio'n briodol. Roedd arwyddion priodol yn dangos ble roedd yr allanfeydd tân.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus, gwastraff (cartref) nad yw'n beryglus a gwastraff amalgam yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n gywir ac yn ddiogel. Nid oedd bin cynhyrchion mislif yn rhoiled y staff ac mae angen unioni hyn.

Roedd y peiriant a'r cyfrifiadur delweddu deintyddol wedi'u lleoli yn yr ystafell staff, ynghyd â therfynell gyfrifiadurol. Ar un adeg yn ystod yr arolygiad, gwelsom nad oedd y cyfrifiadur wedi'i gloi ac y gellid gweld nodiadau cleifion. Argymhellwn y dylid rhoi clo ar ddrws yr ystafell staff.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd 2002, mae angen i gyflogwyr naill ai atal neu leihau amlygiad staff i sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd. Gwelsom fod gan y practis restr wirio rheolaethau 'Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd' (COSHH) a thafleuni data diogelwch perthnasol a oedd yn rhoi gwybodaeth am sylweddau sy'n 'berylus i'w cyflenwi' a chyfarwyddiadau ar ddefnyddio sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis yn ddiogel. Nodwyd gennym hefyd fod gan y practis bolisi trin mercwri a bod pecynnau ymdrin â gollyngiadau ar gael ym mhob deintyddfa. Ar ddiwrnod yr arolygiad, byddai wedi bod yn hawdd cael gafael ar rai hylifau glanhau, ac argymhellwn y dylid eu storio mewn cwpwrdd dan glo.

Roedd gan y practis lyfr Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR), a oedd yn cael ei gadw yn y dderbynfa a'i gwblhau pan fyddai damwain yn digwydd. Nodwyd gennym hefyd bolisi argyfyngau meddygol.



### Yr hyn sydd angen ei wella

Yn unol â rheoliadau presennol, dylai'r practis roi cynllun parhad busnes ar waith.

Yn unol â rheoliadau presennol, dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant diogelwch tân.

Dylai'r practis drefnu bod bin cynhyrchion mislif yn cael ei roi yn nhoiled y staff

Dylai'r practis roi clo ar ddrws yr ystafell staff.

Dylai'r practis sicrhau y caiff yr holl ddeunyddiau glanhau eu storio'n ddiogel.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) offerynnau deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05<sup>5</sup>. Dywedwyd wrthym am gynlluniau i adnewyddu'r ystafell yn y dyfodol. Roedd yr ystafell i'w gweld yn lân ac yn daclus, a gwelsom dystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom dair eitem mewn bagiau yn ystafell yr hylenydd nad oeddent wedi'u dyddio'n briodol. Nodwyd gennym hefyd er bod gweddill yr offerynnau wedi'u dihalogi wedi'u rhoi'n briodol mewn bagiau a'u stampio â'r dyddiad priodol, nad oedd pob dyddiad yn glir. Fel rhan o'r broses ddihalogi, cynghorwn y dylai'r nyrs ddeintyddol archwilio pob eitem a roddwyd mewn bag er mwyn sicrhau bod y dyddiad dod i ben wedi'i roi ar bob bag a'i fod yn glir.

Roedd rhaglen cynnal a chadw dyddiol ar waith a gwelsom dystiolaeth fod y cofnodlyfrau ar gyfer archwilio'r offer sterileiddio yn cael eu cadw a bod polisi rheoli heintiau ar waith.

---

<sup>5</sup> Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y rhan fwyaf o'r staff clinigol dystysgrifau ar ffeil yn cadarnhau eu bod wedi ymgymryd â hyfforddiant rheoli heintiau cyfredol. Nid oedd tystysgrif ar ffeil yr hyleneidd ac argymhellwn y dylai ddarparu tystiolaeth ei bod wedi cwblhau hyfforddiant priodol.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar yn unol â WHTM 01-05.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau y caiff pob offeryn wedi'i ddihalogi a gaiff ei roi mewn bag ei ddyddio'n glir.

Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff clinigol wedi ymgymryd â hyfforddiant rheoli heintiau.

#### Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau mewn perthynas â chleifion, gan gynnwys polisi dadebru. Er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'i rôl, os ceir argyfwng meddygol, byddem yn awgrymu y dylid diwygio polisi argyfyngau meddygol y practis er mwyn cynnwys gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau'r staff. Gwelsom hefyd fod rhestr o fanylion cyswllt ym mhob deintyddfa pe ceid argyfwng. Awgrymwn y dylid cynnwys y wybodaeth hon yn y polisi hefyd.

Mae dyletswydd ar ddarparwyr gofal iechyd i ddarparu sgiliau dadebru os bydd unigolyn yn dioddef ataliad cardio-anadlol ac i sicrhau y caiff staff eu hyfforddi a'u diweddarau'n rheolaidd hyd at lefel o fedruswydd sy'n briodol ar gyfer eu rôl<sup>6</sup>. Ac eithrio un deintydd a'r hyleneidd, gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf ar sut i ymdrin ag

---

<sup>6</sup> <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-dental-care-quality-standards-for-cpr/>

argyfwng meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR). Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Roedd gan y practis y cyffuriau argyfwng a'r offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)<sup>7</sup>. Nodwyd gennym fod gan y practis system ar waith ar gyfer sicrhau bod cyffuriau ac offer i'w defnyddio mewn argyfwng yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod rhai cyffuriau yn cael eu storio yn yr oergell yn yr ystafell staff ac argymhellwn y dylid eu symud a'u storio mewn oergell benodol ar gyfer cyffuriau.

Gwelsom fod padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel a bod trefniadau ar waith i fferyllfa leol gael gwared ar unrhyw gyffuriau nas defnyddiwyd.

Cadarnhaodd y staff eu bod yn deall y weithdrefn briodol ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw broblemau a oedd yn ymwneud â chyffuriau neu ddyfeisiau meddygol drwy gynllun Cerdyn Melyn MHRA<sup>8</sup>.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfwng meddygol a sut i ymgymryd â CPR.

Dylai'r practis sicrhau ei fod yn storio unrhyw gyffuriau yn briodol ac yn ddiogel.

#### Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed, a oedd yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol. Ac eithrio'r hylenydd, roedd

---

<sup>7</sup> Nod y Cyngor Dadebru (DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu

<sup>8</sup> <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/>

pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

Roedd trefniadau ar waith i'r staff godi unrhyw bryderon. Roedd y practis wedi pennu swyddog arweiniol ar gyfer diogelu. Gwelsom fod siartiau llif yn rhoi cyngor ar ddiogelu wedi'u harddangos ym mhob deintyddfa.

Roedd gan y staff clinigol a'r staff anghlinigol dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant perthnasol ym maes amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y deintyddfeydd mewn cyflwr da a'u bod yn cynnwys cyfarpar priodol i sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd yr offer radiolegol mewn cyflwr da ac roedd yr ardaloedd rheoledig wedi'u nodi. Darparodd y practis ddogfennaeth i ddangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil diogelu rhag ymbelydredd yn cael ei chynnal, yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol, gan gynnwys polisi ymbelydredd.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol<sup>9</sup> a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2000<sup>10</sup>, ac eithrio'r hylenydd, llwyddodd pob aelod o'r staff clinigol i ddangos ei fod wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol.

---

<sup>9</sup> Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

<sup>10</sup> [http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi\\_20001059\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf)

### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff clinigol yn ymgymryd â'r hyfforddiant Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) gofynnol.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae'r practis yn ceisio gwella'r gwasanaethau a ddarperir ganddo'n barhaus er budd y cleifion. Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis bolisi yn cefnogi'r trefniadau ar gyfer archwiliadau clinigol. Roedd yr archwiliadau cyfredol yn cynnwys archwiliad rheoli heintiau, archwiliad gwrthficrobaidd ac archwiliad rhoi'r gorau i smygu. Argymhellwn y dylai hefyd gynnal archwiliad cynhwysfawr o'r cofnodion meddygol, gan gynnwys hanesion meddygol ac archwiliadau radiograffig unigol ddwywaith y flwyddyn.

Nodwyd gennym fod polisiau ar waith yn y practis yn nodi'r trefniadau ar gyfer derbyn cleifion ac asesu, diagnosio a thrin cleifion.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis gynnwys archwiliad cynhwysfawr o'r cofnodion meddygol, gan gynnwys hanesion meddygol ac archwiliadau radiograffig unigol dwywaith y flwyddyn, yn ei raglen o archwiliadau.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod adolygiadau rheolaidd wedi'u cynllunio yn cael eu cynnal gan gymheiriaid deintyddol. Byddem yn argymhell y dylid trefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd rhwng y deintyddion at y diben hwn.

Yn 2012, defnyddiodd y practis adnodd datblygu practisau 'Metrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth' Deoniaeth Cymru. Mae'r 'Metrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth' yn adnodd datblygu practisau deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arfer gorau a gofynion deddfwriaethol ac ar sut y mae'n gweithio. O ystyried y newidiadau diweddar i'r staff clinigol, efallai yr hoffai'r practis ystyried ei ddefnyddio unwaith eto.

## Yr hyn sydd angen ei wella

Y deintyddion i drefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd at ddibenion adolygu cymheiriaid.

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis gofnodion electronig a chofnodion ar bapur, a nodwyd gennym fod y rhain yn cael eu storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copïau wrth gefn yn cael eu creu o ffeiliau electronig.

Roedd gan y practis nifer o bolisiâu a gweithdrefnau priodol ar waith.

## Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion. Gwelsom mewn rhai achosion fod hepgoriadau, ac yn benodol nad oedd unrhyw gofnod o'r canlynol:

- Radiograffiau - archwiliadau cyffredin drwy dynnu lluniau o'r ochr wrth gnoi ('bitewing')
- Gradd ansawdd radiograffiau
- Cyngor ar roi'r gorau i smygu
- Archwilio hanes meddygol
- Darparu tystiolaeth o geisiadau adalw gan NICE<sup>11</sup>
- Nid oedd trefniadau ar gyfer llunio siartiau poced yn dilyn archwiliadau periodontol sylfaenol (BPE<sup>12</sup>) na chynlluniau strwythuredig ar gyfer triniaeth yn dilyn archwiliadau o'r fath.

---

<sup>11</sup> <https://www.nice.org.uk/guidance/cg19>

<sup>12</sup> Mae BPE yn dalfyriad o'r term Saesneg 'basic periodontal examination' ac mae'n archwilio cyflwr iechyd eich deintgig.

Yn ogystal, roedd rhai enghreifftiau o hanesion meddygol a oedd ar goll ac o radiograffau a oedd ar goll, a fyddai'n helpu i gynllunio triniaethau. Yn ystod yr arolygiad, codwyd pryder hefyd ynghylch cywirdeb y broses o gofnodi'r nifer o radiograffau a wnaed ar gyfer pob claf.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cwblhau yn ystod ymweliad pob claf er mwyn cofnodi gwybodaeth gynhwysfawr am yr archwiliad, y cyngor a'r driniaeth a roddwyd a gwybodaeth berthnasol am luniau pelydr-X.

## **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth**

*Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd y ddau brif ddeintydd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd tystiolaeth o arweinyddiaeth a llinellau atebolrwydd da.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol ar waith yn y practis. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi'u darllen.

Roedd gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith er budd staff, gan gynnwys proses flynyddol ar gyfer arfarnu staff a chyfarfodydd staff rheolaidd.

## **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Mae'r ddau brif ddeintydd wedi bod yn berchen ar Ddeintyddfa Worcester House ers 2015. Mae'r ddau yn rhannu rôl yr unigolyn cyfrifol <sup>13</sup>a rôl y rheolwr

---

<sup>13</sup> Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli.



cofrestredig<sup>14</sup>. Gwelsom fod trefniadau arwain da ar waith yn y practis a bod pob aelod o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Gwelsom fod darpariaeth i bob aelod o'r staff dystio ei fod wedi darllen y polisiâu ac wedi'u deall.

Gwelsom y Datganiadau o Ddiben, un ar gyfer y naill unigolyn cyfrifol a'r llall. Roedd y ddau yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol ond mae angen iddynt gynnwys mwy o fanylion am drefniadau'r practis ar gyfer ymdrin â chwynion ac roedd angen eu diweddarau er mwyn adlewyrchu'r trefniadau staffio presennol.

Cawsom gyfle i siarad ag un o'r prif ddeintyddion a gadarnhaodd ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o ran yr hysbysiadau, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb neu newidiadau i'r rheolwr cofrestredig, sy'n rhaid eu hanfon at AGIC o dan reoliadau 25-29 o'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar eu cyfer. Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis a thystysgrifau cofrestru AGIC yn cael eu harddangos.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid diwygio'r ddau Ddatganiad o Ddiben er mwyn rhoi mwy o wybodaeth am y broses ar gyfer ymdrin â chwynion gan gleifion ac adlewyrchu trefniadau staffio presennol y practis.

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

---

<sup>14</sup> Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

Roedd nifer o bolisiau a gweithdrefnau adnoddau dynol ar waith yn y practis er mwyn helpu i recriwtio a chadw staff, gan gynnwys polisi hyfforddi staff, polisi gwybodaeth am straen yn y gweithle a llawlyfr i gyflogeion, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o bolisiau adnoddau dynol.

Nodwyd gennym fod gan bob aelod o'r staff gontract cyflogaeth a oedd yn cael ei gadw yn ffeiliau'r staff. Gwelsom dystiolaeth hefyd o'r wybodaeth a oedd yn cael ei chasglu adeg recriwtio, gan gynnwys geirdaon a dogfennau adnabod.

Gwelsom dystiolaeth fod arfarniadau staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u dogfennu, ynghyd â chynlluniau datblygu personol.

Dywedwyd wrthym pan fyddai staff asiantaeth yn cael eu defnyddio dros dro, fod gweithdrefn ar waith i wneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r systemau a'r prosesau sydd ar waith yn y practis.

Gwelsom dystysgrifau yn dangos tystiolaeth bod y rhan fwyaf o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau ac a oedd yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Cyfeiriwyd at y diffygion hynny yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd ar gyfer pob aelod o'r staff. Dim ond pan fydd pob aelod o'r staff ar gael y cynhelir cyfarfodydd o'r fath er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r materion a gaiff eu trafod a'r camau gweithredu y cytunir arnynt. Gwelsom gofnodion y cyfarfodydd hyn. Rydym yn cynghori bod pob aelod o'r staff yn eu llofnodi i ddangos eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau clirio'r DBS wedi'u cynnal ar gyfer y staff clinigol a'r staff anghlinigol.

Mae'n ofynnol i'r staff clinigol gael eu himiwneiddio yn erbyn Hepatitis B er mwyn amddiffyn y cleifion a nhw eu hunain yn erbyn yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

Gwnaethom siarad ag un o'r prif ddeintyddion a gadarnhaodd yn ei rôl fel un o'r rheolwyr cofrestredig ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau a'i rwymedigaethau o dan Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle gwnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw faterion roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn			

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

### Gwasanaeth: Deintyddfa Worcester House

### Dyddiad arolygu: 15 Hydref 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghlŷn â diffyg cydymffurfio sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Teitl swydd:

### Dyddiad:

Tudalen 31 o 38

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Deintyddfa Worcester House

### Dyddiad arolygu: 15 Hydref 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cloi'r cyfrifiaduron pryd bynnag y byddant yn gadael ystafell.	4.1 Gofal Gydag Urddas; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 15(1)	Rhoddyd gwybod i'r staff y dylid cloi'r cyfrifiaduron pan fyddant yn gadael ystafell. Gosodwyd Clo Bysellbad ar ddrws yr ystafell staff er mwyn atal mynediad i'r peiriant pelydr-x digidol.	James Thomas	Cwblhawyd
Dylai'r practis sicrhau bod ei Daflen Wybodaeth i Gleifion yn bodloni gofynion Atodlen 2 i Reoliadau Deintyddol Preifat 2017	4.2 Gwybodaeth i Gleifion, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017	Anfonwyd taflen wedi'i diweddarau at y cyhoeddwr	James Thomas	1 mis



Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Adrannau 6 ac 8			
Dylai'r practis ddiwygio ei bolisi cwynion er mwyn cyfeirio at AGIC fel un o'r llwybrau i'r cleifion gyflwyno cwynion.	6.3 Gwrandao a Dysgu o adborth; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 15	Diwygiwyd y polisi cwynion	James Thomas	Cwblhawyd
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
Yn unol â rheoliadau presennol, dylai'r practis roi cynllun parhad busnes ar waith.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adran 8	Bydd y partneriaid yn cyfarfod yn y Flwyddyn Newydd er mwyn rhoi cynllun parhad busnes ar waith.	James Thomas	2 fis
Yn unol â rheoliadau presennol, dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant diogelwch tân.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 22 (4)	Trefnu hyfforddiant diogelwch tân yn y Flwyddyn Newydd	James Thomas	2 fis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r practis drefnu bod bin cynhyrchion mislif yn cael ei roi yn nhoiled y staff	Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992	Gosodwyd bin cynhyrchion mislif yn nhoiled y staff	James Thomas	Cwblhawyd
Dylai'r practis roi clo ar ddrws yr ystafell staff.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adran 22	Gosodwyd clo bysellbad yn ystafell y staff	James Thomas	Cwblhawyd
Dylai'r practis sicrhau y caiff yr holl ddeunyddiau glanhau eu storio'n ddiogel.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adran 22	Gosodwyd clo ar ddrws yr ystafell staff	James Thomas	Cwblhawyd
Dylai'r practis sicrhau y caiff pob offeryn wedi'i ddihalogi a gaiff ei roi mewn bag ei ddyddio'n glir.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi, WHTM 01-05	Rhodddwyd gwybod i'r staff fod yn rhaid i'r dyddiad ar fag offer fod yn ddarllenadwy	James Thomas	Cwblhawyd
Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff clinigol wedi ymgymryd â hyfforddiant rheoli heintiau	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 17 (3)(a)	Mae pob aelod o'r staff wedi ymgymryd â hyfforddiant mewnol. Disgwylir i'r nyrsys deintyddol dan hyfforddiant ymdrin â rheoli heintiau fel rhan o'u cwrs	Iman Mehdi	3 mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		yn y Flwyddyn Newydd		
Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfwng meddygol a sut i ymgymryd â CPR.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adrannau 8 ac 17  Safonau'r Cyngor Dadebru ar gyfer Gofal Deintyddol Sylfaenol	Cwblhaodd y practis hyfforddiant CPW ar 31 Hydref 2018. Y derbynnydd i drefnu cwrs CPR yn y Flwyddyn Newydd.	James Thomas	3 mis
Dylai'r practis sicrhau ei fod yn storio unrhyw gyffuriau yn briodol ac yn ddiogel.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 31(3)(b)	Gosodwyd clo bysellbad ar ddrws yr ystafell staff, ac oergell ar wahân ar gyfer storio cyffuriau priodol	James Thomas	Cwblhawyd
Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant perthnasol ym maes amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed	2.7 Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adrannau 8 ac 14	Bydd y Nyrsys Deintyddol Dan Hyfforddiant yn ymdrin â'r pynciau hyn fel rhan o'u cwrs yn y Flwyddyn Newydd.	James Thomas	2 fis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff clinigol yn ymgymryd â'r hyfforddiant Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Amlygiad Meddygol) gofynnol.	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 17 (3)	Bydd y Nyrsys Deintyddol Dan Hyfforddiant yn ymdrin â'r pynciau hyn fel rhan o'u cwrs yn y Flwyddyn Newydd.	James Thomas	2 fis
Dylai'r practis gynnwys archwiliad cynhwysfawr o'r cofnodion meddygol, gan gynnwys hanesion meddygol ac archwiliadau radiograffig unigol dwywaith y flwyddyn, yn ei raglen o archwiliadau.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adran 16	Y deintyddion i gwblhau archwiliad o'r cofnodion meddygol yn y Flwyddyn Newydd. Mae archwiliad radiograffig yn mynd rhagddo.	James Thomas	4 fis
Y deintyddion i drefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd at ddibenion adolygu cymheiriaid.	3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adran 16	Y deintyddion i gyfarfod yn y Flwyddyn Newydd i drefnu'r pwnc nesaf ar gyfer adolygiad cymheiriaid.	James Thomas	6 mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cwblhau yn ystod ymweliad pob claf er mwyn cofnodi gwybodaeth gynhwysfawr am yr archwiliad, y cyngor a'r driniaeth a roddwyd a gwybodaeth berthnasol am luniau pelydr-X.</p>	<p>3.5 Cadw cofnodion; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adran 20</p>	<p>Y deintyddion i gwblhau archwiliad o'r trefniadau ar gyfer cadw cofnodion meddygol yn y Flwyddyn Newydd.</p>	<p>James Thomas</p>	<p>6 mis</p>
Answadd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Dylid diwygio'r ddau Ddatganiad o Ddiben er mwyn rhoi mwy o wybodaeth am y broses ar gyfer ymdrin â chwynion gan gleifion ac adlewyrchu trefniadau staffio presennol y practis.</p>	<p>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adrannau 5 a 7 ac Atodlen 1</p>	<p>Diwygiwyd y datganiad o ddiben</p>	<p>James Thomas</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

## **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras):** James Thomas

**Teitl swydd:** Prif ddeintydd

**Dyddiad:** 19/12/2018